
# Y cyfan sydd angen i chi ei wybod am y Drwydded Deledu

## Cyngor i Fyfyrwyr




01 – Pryd mae arnoch angen trwydded
03 – Beth ddylech chi ei wybod fel myfyriwr
05 – Yr hyn y mae ffi'r drwydded yn talu amdano
07 – Ffyrdd o dalu
13 – Mynd yn ddi-bapur
15 – Y Consesiwn o 50% i Bobl Ddall
17 – Diogelu eich hun rhag sgamiau


TV LICENSING
TRWYDDEDU TELEDU

# Mae arnoch angen Trwydded Deledu os…

## ydych yn gwylio neu'n recordio unrhyw deledu byw

Mae arnoch angen Trwydded Deledu i wylio neu recordio rhaglenni wrth iddyn nhw gael eu dangos ar deledu neu wedi'u ffrydio'n fyw ar wasanaeth teledu ar lein. Ac nid y BBC yn unig; mae hynny ar gyfer pob sianel a gwasanaeth.


Yn yr un modd, os ydych yn recordio rhaglen i'w gwylio yn nes ymlaen, os ydych yn gwylio rhaglen ar oedi, neu os ydych yn gwylio neu'n recordio ailddarllediadau, os ydych yn gwylio sianeli +1, +2 neu +24… mae arnoch angen Trwydded Deledu.

## o unrhyw le yn y byd

Os ydych yn gwylio rhaglenni wedi'u ffrydio ar lein neu drwy loeren o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw, fel sianeli tramor a gemau chwaraeon neu sioeau teledu tramor – yna mae arnoch angen Trwydded Deledu o hyd.

## ar unrhyw sianel

Os ydych yn gwylio cebl, lloeren neu unrhyw wasanaethau teledu eraill yn fyw, yna mae arnoch angen Trwydded Deledu.









## Mae arnoch angen trwydded hefyd i wylio BBC iPlayer

Mae arnoch angen Trwydded Deledu i wylio rhaglenni'r BBC ar BBC iPlayer – boed hynny'n fyw, ar alw neu wrth lawrlwytho.



# Dyma sydd angen i chi ei wybod

## Os ydych yn byw mewn neuadd breswyl

Fydd trwydded gyffredin ddim yn eich trwyddedu i wylio teledu yn eich stafell. Bydd arnoch angen eich Trwydded Deledu eich hun i wylio neu recordio teledu ar unrhyw sianel, gwylio teledu byw ar unrhyw wasanaeth ffrydio a gwylio sioeau'r BBC ar BBC iPlayer.

Fodd bynnag, os oes Trwydded Deledu yn eich cyfeiriad y tu allan i adeg tymor (er enghraifft cyfeiriad eich rhieni neu warcheidwaid) fe fydd hon yn eich trwyddedu, cyn belled â'ch bod yn gwylio ar ddyfais sy'n rhedeg ar ei batris mewnol yn unig (fel eich ffôn symudol, gliniadur neu dabled) AC nad yw wedi'i chysylltu ag erial na'i phlygio i'r prif gyflenwad.

## Os ydych yn byw mewn tŷ neu fflat ar rent

Bydd arnoch angen Trwydded Deledu i wylio neu recordio rhaglenni wrth iddyn nhw gael eu dangos ar y teledu neu eu ffrydio'n fyw ar wasanaeth teledu ar lein, neu wylio rhaglenni'r BBC ar BBC iPlayer – boed hynny'n fyw, ar alw neu wrth lawrlwytho.

Os oes gennych gytundeb tenantiaeth ar wahân ar gyfer eich stafell, bydd arnoch angen eich Trwydded Deledu eich hun. Ond os oes gennych gytundeb cyd-denantiaeth ar gyfer tŷ cyfan neu fflat, fel arfer bydd arnoch angen un drwydded yn unig i drwyddedu'r holl eiddo – ond, mae'n werth cael golwg ar **tvl.co.uk/prifysgol** (yn Saesneg) i fod yn hollol sicr.

**Allech chi gael ad-daliad?**

Rydym yn sylweddoli o bosib nad oes angen Trwydded Deledu am flwyddyn lawn ar rai myfyrwyr a byddwn yn gwneud yr hyn allwn ni i sicrhau nad ydynt ond yn talu am yr hyn sydd ei angen arnynt.

Gallwch wneud cais am ad-daliad ar gyfer unrhyw fisoedd sydd heb eu defnyddio ar ddiwedd y flwyddyn academaidd, a gallech gael rhywfaint o arian yn ôl. I wneud cais am ad-daliad, ewch i **tvl.co.uk/ad-daliad** (yn Saesneg).





# Beth mae ffi eich Trwydded Deledu yn talu amdano

## Teledu y BBC

Mae’n debyg eich bod yn gwybod yn barod bod eich Trwydded Deledu yn talu am holl raglenni teledu’r BBC. Ond efallai nad ydych yn gwybod am yr holl bethau eraill sy’n cael eu hariannu:



### BBC iPlayer

Mae BBC iPlayer yn gadael i chi wylio rhaglenni’n fyw ar draws holl sianeli’r BBC. Gallwch hefyd ddal i fyny ar raglenni rydych wedi’u methu, neu fwynhau’r detholiad mawr o setiau bocs sydd ar gael.







### Newyddion, Chwaraeon a Cherddoriaeth Fyw

Mae ffi eich trwydded yn helpu i dalu am newyddion lleol a rhyngwladol y BBC, ynghyd â digwyddiadau chwaraeon a cherddoriaeth fyw.




### Radio

Mae cynnyrch radio y BBC yn cynnwys 16 gorsaf radio genedlaethol, 40 gorsaf radio leol a’r World Service.




### Cynnwys ar gyfer plant ac oedolion ifanc

Mae’n cynnwys sianeli teledu fel CBeebies a CBBC, ynghyd ag adnoddau dysgu ar lein yn BBC Bitesize.



### bbc.co.uk

Canolbwynt digidol y BBC ar gyfer newyddion, rhaglenni nodwedd a chwaraeon.




### Apiau ar gyfer eich ffôn clyfar neu dabled

Mae’n cynnwys ap Chwaraeon y BBC, yr ap Tywydd, yr ap Newyddion a BBC Sounds.

# Ffyrdd o dalu am eich trwydded

Mae yna dair brif ffordd y gallwch dalu am eich Trwydded Deledu – trwy Ddebyd Uniongyrchol, trwy ymuno â chynllun cerdyn talu Trwyddedu Teledu, neu drwy dalu'n llawn gan ddefnyddio arian parod, cerdyn debyd neu gredyd neu siec.

## 1. Talu trwy Ddebyd Uniongyrchol

Beth am ddechrau gyda Debyd Uniongyrchol, gan mai dyna'r ffordd y bydd 7 o bob 10 o bobl yn talu. Maen nhw'n ei gael yn hawdd a chyfleus, yn rhannol oherwydd ar ôl ei drefnu mae'r taliadau yn awtomatig a bydd eich trwydded yn cael ei hadnewyddu bob blwyddyn. Felly does dim rhaid i chi wneud unrhyw beth arall.

**Blynyddol – £169.50**

Gyda Debyd Uniongyrchol blynyddol, bydd eich trwydded yn cael ei hadnewyddu'n awtomatig bob blwyddyn.

Byddwch yn gwneud un taliad o £169.50 bob 12 mis am drwydded lliw, neu £57.00 am drwydded du a gwyn.

**Misol – o £14.12**

Fel arfer byddwch yn talu am eich trwydded gyntaf dros chwe mis, am tua £28.25 y mis. Os bydd raid i ni rannu'r gost dros lai na chwe mis, gall pob taliad fod ychydig yn uwch.

O fis saith, bydd eich taliadau'n haneru. Byddwch yn talu am eich trwydded nesaf gyda 12 rhandaliad misol o tua £14.12 – chwe thaliad cyn i'ch trwydded gael ei hadnewyddu, a chwech ar ôl hynny.

**Chwarterol – o £43.62**

Gwnewch bedwar taliad Debyd Uniongyrchol drwy gydol y flwyddyn. Yn wahanol i ffyrdd eraill o dalu, gyda thaliadau bob chwarter, fyddwch chi ddim yn talu am unrhyw ran o'ch trwydded ymlaen llaw. O ganlyniad, mae pob taliad chwarterol yn cynnwys tâl o £1.25.

Pa Ddebyd Uniongyrchol bynnag fyddwch chi'n ei ddewis, byddwn yn anfon eich trwydded newydd a'ch cynllun talu am y flwyddyn atoch, bob 12 mis.

Os bydd ffi'r drwydded yn codi, bydd eich taliadau misol yn cael eu newid adeg adnewyddu eich trwydded, i adlewyrchu'r newid yn y ffi. (Fe ddylech fod yn ymwybodol, gall eich cynllun talu amrywio os byddwch wedi symud i Ddebyd Uniongyrchol o gynllun arall.)

**Sut i drefnu cynllun Debyd Uniongyrchol**

I drefnu Debyd Uniongyrchol blynyddol, misol neu chwarterol:

Ewch i **tvl.co.uk/talu** Neu ffoniwch **0300 790 6042**.



## 2. Talu gyda cherdyn talu Trwyddedu Teledu

Mae cynllun cerdyn talu Trwyddedu Teledu yn rhoi hyblygrwydd i chi dalu am eich Trwydded Deledu un ai bob wythnos, yna bob pythefnos – neu bob mis.

### Talu bob wythnos, yna bob pythefnos

Os byddwch yn talu bob wythnos yna bob pythefnos, byddwch yn talu am eich Trwydded Deledu gyntaf mewn rhandaliadau wythnosol am hyd at 26 wythnos. Ar ôl y 26 wythnos byddwch yn talu'r un swm, ond bob dwy wythnos, tuag at eich trwydded nesaf.

### Talu bob mis

Os byddwch yn dewis talu bob mis, fel arfer byddwch yn talu am eich trwydded gyntaf dros y chwe mis cyntaf. O fis saith, bydd eich taliadau misol yn haneru oherwydd fe fyddwch yn talu tuag at eich trwydded nesaf dros gyfnod o 12 mis.

### Sut i wneud cais am gerdyn talu Trwyddedu Teledu

Ffoniwch **0300 790 6042**.

Byddwn yn anfon eich cerdyn talu Trwyddedu Teledu atoch ynghyd â chynllun talu, a fydd yn dweud wrthych faint i'w dalu a phryd.

**Sut i dalu**

Gallwch dalu ar lein, ar eich ffôn symudol trwy ap TVL Pay, gyda galwad ffôn, neu drwy neges destun gan ddefnyddio cerdyn credyd neu ddebyd. Neu drwy fynd â cherdyn talu Trwyddedu Teledu i unrhyw siop PayPoint, i dalu gyda cherdyn debyd neu arian parod. I ddod o hyd i'r siop agosaf, ewch i **paypoint.com/locator**



## 3. Talu'n llawn

Yn ogystal â Debyd Uniongyrchol blynyddol, mae yna nifer o ffyrdd y gallwch dalu'n llawn am eich trwydded bob blwyddyn:




### Ar lein

Ewch i **tvl.co.uk/talu** a thalu gan ddefnyddio cerdyn debyd neu gredyd.



### Trwy siec

Ysgrifennwch siec am **£169.50** a'i gwneud yn daladwy i 'Trwyddedu Teledu'. Ysgrifennwch eich enw a'ch cyfeiriad ar y cefn – os ydych yn adnewyddu, ysgrifennwch rif eich trwydded hefyd.

Postiwch eich siec at:

**Customer Service**
**TV Licensing**
**Darlington**
**DL98 1TL**





### Mewn siop PayPoint

Ewch i unrhyw siop PayPoint a thalu gydag arian parod neu gerdyn debyd. I ddod o hyd i'r siop agosaf, ewch i **paypoint.com/locator**



### Dros y ffôn

Ffoniwch **0300 790 6042** a thalu gan ddefnyddio cerdyn debyd neu gredyd.





# Mynd yn ddi-bapur

Fel eich taliadau am nwy, ffôn neu dreth gyngor, gallwch weld eich Trwydded Deledu ar lein pryd bynnag y dymunwch. Does arnoch ddim angen copi papur mewn gwirionedd.

Mae 90% o gwsmeriaid ar lein newydd yn dewis peidio â derbyn trwydded bapur. Felly beth am ymuno â nhw?



## Manteision mynd yn ddi-bapur

- Byddwch yn derbyn eich trwydded newydd ac unrhyw ddiweddariadau ar unwaith trwy e-bost – gan osgoi unrhyw oedi yn y post.
- Fydd byth angen i chi boeni am golli eich trwydded bapur – yn syml iawn, cadwch yr e-bost y byddwn yn ei anfon atoch neu chwiliwch am eich trwydded ar lein.
- Llai o arian yn cael ei wario ar anfon llythyrau a gwaith gweinyddol arall atoch.
- Mwy o arian ar gyfer rhaglenni a gwasanaethau'r BBC ar deledu, radio ac ar lein.
- Byddwch yn helpu i arbed coed.
- Lleihau annibendod yn eich cartref.
- Os byddwch yn talu trwy gerdyn debyd neu gredyd, byddwn yn anfon e-bost atoch pan fydd yn adeg adnewyddu.
- Os byddwch yn talu trwy Ddebyd Uniongyrchol, byddwn yn e-bostio dolen atoch at eich trwydded newydd a'ch cynllun talu.

**Sut i fynd yn ddi-bapur**

Bydd angen i chi ddweud wrthym os ydych eisiau mynd yn ddi-bapur, er mwyn i ni allu rhoi'r gorau i anfon y drwydded bapur atoch.

1. **Mewngofnodwch i'n gwefan ddiogel yn tvl.co.uk/di-bapur (yn Saesneg).**

Bydd arnoch angen rhif eich trwydded, eich enw olaf a'ch côd post i fewngofnodi.

2. **Rhowch eich cyfeiriad e-bost, pwyswch parhau a chadarnhau eich newidiadau.**

# Y Consesiwn o 50% i Bobl Ddall

Os ydych yn ddall (â nam difrifol ar eich golwg), fe allech fod â hawl i dderbyn consesiwn o 50% ar ffi eich trwydded. Mae trwydded lliw gyda chonsesiwn i bobl ddall yn costio £84.75. Y mae ar gael i bobl o bob oed a bydd eich trwydded hefyd yn trwyddedu unrhyw un sy'n byw gyda chi.

## Beth fydd ei angen arnoch i wneud cais

Bydd angen i chi ddarparu llungopi neu sgan o un o'r canlynol:

- CVI (Tystysgrif Nam ar y Golwg)
- Tystysgrif BD8
- Tystysgrif neu ddogfen gan Awdurdod Lleol sy'n dangos eich bod wedi'ch cofrestru'n ddall (â nam difrifol ar eich golwg)
- Tystysgrif gan Offthalmolegydd (llawfeddyg llygaid), sy'n datgan eich bod yn ddall (â nam difrifol ar eich golwg).

## Sut i wneud cais drwy'r post

1. Llungopïwch dystiolaeth eich bod yn ddall o'r rhestr uchod
2. Rhowch eich enw a'ch cyfeiriad ar ddarn o bapur ar wahân, gan gynnwys eich cyfeiriad e-bost petai'n well gennych i ni gysylltu â chi trwy e-bost
3. Postiwch nhw'n ôl atom yn:

   **TV Licensing**
   **Blind Concession Group**
   **Darlington**
   **DL98 1TL**

## Sut i wneud cais ar lein

1. Ewch i **tvl.co.uk/dall** (yn Saesneg) a dewis 'Apply for your first blind licence'
2. Cwblhewch y ffurflen gais ar lein
3. Llwythwch eich sgan i brofi eich bod yn ddall, yna pwyswch cyflwyno.

Bydd eich cais yn cael ei anfon yn awtomatig ac yna ei brosesu.

Os byddwch yn cael problemau gyda'ch cais ar lein, ffoniwch ni ar **0300 790 6042**.


## Gwneud cais ar ran rhywun arall

Os nad ydych yn ddall, ond rydych yn byw gyda rhywun sy'n ddall ac mae'r dogfennau iawn ganddynt, gallwch drosglwyddo eich Trwydded Deledu iddyn nhw, hyd yn oed os ydyn nhw dan 18 mlwydd oed. Yna gallwch wneud cais am gonsesiwn o 50% i bobl ddall yn eu henw nhw.

**Sut i gael gwybod mwy**

Os bydd arnoch angen cymorth i wneud cais am y consesiwn o 50% i bobl ddall, ewch i **tvl.co.uk/consesiynau** (yn Saesneg).

Ac os oes gennych gwestiynau o hyd, ffoniwch **0300 790 6042**.



# Diogelu eich hun rhag sgamiau

## STOPIO

Yn anffodus, mae sgamiau ar gynnydd ac mae Trwyddedu Teledu yn un o'r sefydliadau y gall sgamwyr geisio ei ddynwared.

Os byddwch yn derbyn rhywbeth sy'n dweud ei fod oddi wrth Drwyddedu Teledu, nad ydych yn sicr yn ei gylch, y peth cyntaf i'w wneud yw STOPIO. Peidiwch â rhuthro i rannu eich gwybodaeth bersonol.

## GWIRIO

Bydd sgamwyr yn defnyddio amryw o ddulliau i geisio cael gwybodaeth gennych – o bosib trwy e-bost, llythyr, côd QR, neges testun, galwad ffôn, neu hyd yn oed ymwelydd wrth eich drws. Edrychwch ar ein gwefan i gael cymorth i sylwi ar y mathau o driciau sy'n cael eu defnyddio.

## GOFYN

Os ydych yn ansicr ynghylch unrhyw negeseuon a gawsoch gan Drwyddedu Teledu, rydym bob amser yn falch o helpu.

Ewch i **tvl.co.uk/twyll** (yn Saesneg).

Neu ffoniwch **0300 303 9695**.

**Ydych chi'n meddwl y gallech fod wedi'ch twyllo yn barod?**

Os ydych eisoes wedi rhoi eich manylion personol ar safle amheus, fe ddylech riportio hynny i Action Fraud ar unwaith yn **www.actionfraud.police.uk** neu ffonio **0300 123 2040**. Ac os ydych wedi darparu unrhyw fanylion cerdyn neu fanylion banc, fe ddylech hefyd gael gair â'ch banc ar unwaith.

I riportio unrhyw e-byst twyllodrus neu amheus, dylech eu hanfon ymlaen at **report@phishing.gov.uk** a bydd y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol (NCSC) yn ymchwilio. Os bydd yr e-bost wedi'i gysylltu â gwefan ffug fe fydd yn cael ei hatal neu ei chau.



# Ble i gael gwybod mwy

Mae ein gwefan yn cynnwys popeth y mae arnoch angen ei wybod am y Drwydded Deledu a sut i dalu. Rydym hefyd wedi llunio cyfres o fideos hawdd eu dilyn, sy’n gallu helpu i egluro pethau ymhellach.

Ewch i **tvl.co.uk/advice**



Pryd mae arnoch angen Trwydded Deledu?



Yr hyn y mae eich Trwydded Deledu yn talu amdano



Debyd Uniongyrchol a ffyrdd o dalu




Eich helpu i’ch diogelu eich hun rhag twyll



Mynd yn ddi-bapur



Myfyrwyr



Ail gartrefi



Consesiynau

TVL-SLT-SL-04-24-W